



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Dogfen ymgynghoriad

**Blwyddyn bontio arfaethedig Estyn yn
2020-2021**

Mai 2019

Ymgynghoriad ar flwyddyn bontio arfaethedig Estyn yn 2020–2021

Estyn - Arolygiaeth Dysgu: gwrando, dysgu a newid gyda'n gilydd

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau ynghylch sut y gall arolygu gefnogi ysgolion a darparwyr eraill orau i reoli'r newidiadau niferus sy'n digwydd mewn addysg er mwyn sicrhau llwyddiant i'w holl ddysgwyr. Rhwng 2020 a 2024, rydym yn bwriadu gwneud newidiadau i'n gwaith:

- yn y flwyddyn bontio 2020–2021, rydym yn bwriadu atal arolygiadau yn rhannol mewn ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) sy'n cael eu rhedeg gan awdurdod lleol, fel y gall arolygwyr weithio gydag ysgolion ar y newidiadau i'r cwricwlwm
- ym mis Medi 2021 bydd gennym drefniadau arolygu newydd ar waith
- yn ystod 2021–2024, byddwn yn treialu arolygiadau sy'n canolbwyntio ar ddilysu prosesau hunan-wella ysgolion. Bydd yr arolygiadau hyn yn rhoi adborth amlach a chyfredol i ysgolion a rhieni. O tua 2024 rydym yn bwriadu cyflwyno'r arolygiadau hyn i bob ysgol.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar bob cam i lunio ein cynlluniau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar ein cynnig ar gyfer blwyddyn bontio yn 2020–2021.

Er mwyn caniatáu atal arolygiadau yn rhannol, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ymestyn y cyfnod arolygu presennol i orffen yn 2024.

1. Nodwch pa grŵp sy'n berthnasol i chi:

- ☐ Dysgwr
- ☐ Rhiant/gofalwr
- ☐ Gweithiwr addysg proffesiynol
- ☐ Aelod o'r cyhoedd
- ☒ Arall (rhowch fanylion):

Undeb llafur (addysg)

2. Pa sector(au) sydd o ddiddordeb i chi? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☒ Dysgu oedolion yn y gymuned
- ☒ Ysgolion pob oed ac ysgolion wedi'u ffedereiddio
- ☐ Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar
- ☒ Addysg bellach
- ☐ Ysgolion annibynnol ac ysgolion a cholegau arbennig annibynnol
- ☒ Hyfforddiant cychwynnol athrawon
- ☒ Awdurdodau lleol/consortia rhanbarthol
- ☒ Ysgolion cynradd
- ☒ Unedau cyfeirio disgyblion

- ☒ Ysgolion uwchradd
- ☒ Ysgolion arbennig
- ☒ Dysgu yn y gwaith
- ☐ Arall (rhowch fanylion):

Ein bwriad i atal arolygiadau yn rhannol yn 2020–2021

Yn ystod y flwyddyn bontio 2020–2021, rydym yn bwriadu atal arolygiadau yn rhannol mewn ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) sy'n cael eu rhedeg gan awdurdod lleol. Byddwn yn parhau i arolygu darparwyr ym mhob sector arall. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro ysgolion y nodwyd bod angen gwaith dilynol arnynt. Bydd hyn yn cynnwys ysgolion yng nghategoriâu'r adolygiad Estyn, gwelliant sylweddol a mesurau arbennig. Mae hyn yn golygu, pe bai ysgol wedi derbyn ymweliad monitro o dan os yw ysgol i gael ei monitro o dan y trefniadau arolygu presennol, byddwn yn parhau i ymweld yn ystod 2020–2021. Byddwn yn cadw'r hawl i arolygu ysgol mewn amgylchiadau eithriadol.

3. A ydych yn cytuno y dylem atal arolygiadau yn rhannol ar gyfer ysgolion ac UCDau yn ystod y flwyddyn academiaidd 2020–2021 fel bod arolygwyr yn cefnogi diwygio'r cwricwlwm?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☒ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

4. A oes unrhyw sylwadau eraill gennych o ran pa waith arolygu ddylai barhau yn ystod y flwyddyn bontio?

Mae'r cynigion yn ymddangos yn rhesymol.

Cymerwn y bydd arolygiadau/gwaith thematig yn parhau – mi fyddai hynny'n sicr yn fanteisiol, ac mi allai ganolbwyntio ar amrywiol feysydd sy'n berthnasol i'r diwygiadau.

Ymweliadau ymgysylltu arolygwyr

Ar hyn o bryd rydym yn ymweld ag ysgolion ac UCDau fel rhan o arolygiadau craidd, gwaith dilynol ac arolygiadau thematig. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion ac UCDau i helpu i gefnogi'r newidiadau sy'n digwydd mewn addysg. Yn ystod y flwyddyn bontio, ein nod yw ymweld â phob ysgol yng Nghymru. Mae'r ymweliadau hyn yn debygol o bara un diwrnod. Yn ystod yr ymweliad, bydd yr arolygydd yn siarad â disgyblion a staff. Yn rhai o'n hysgolion mwyaf, efallai y bydd dau arolygydd yn ymweld er mwyn ein galluogi i siarad â mwy o ddisgyblion a staff. Ar gyfer ysgolion mewn categori gweithgarwch dilynol, rydym yn trafod y

newidiadau mewn addysg fel rhan o'r ymweliad monitro ac nid ydym yn cynnal ymweliad ar wahân.

Bydd y dystiolaeth a gasglwn yn ystod yr ymweliadau hyn yn ein galluogi i ddarparu adborth ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol fel diwygio'r cwricwlwm i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Ar ymweliad ymgysylltu, byddwn yn rhoi adborth byr i'r ysgol ar ddatblygiadau cenedlaethol a'r hyn sy'n gweithio'n dda.

Byddwn yn defnyddio adborth gan ysgolion i werthuso pa mor fuddiol fu'r ymweliadau, ac i gynllunio pa rôl y gallai ymweliadau ymgysylltu arolygwyr ei chwarae o 2021 ymlaen.

5. A ydych chi'n cytuno bod y wybodaeth uchod yn esbonio pwrpas yr ymweliadau ymgysylltu?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☒ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Ffocws yr ymweliadau ymgysylltu

Bydd ymweliadau ymgysylltu yn ystod y flwyddyn bontio yn canolbwyntio ar ddeall pa mor dda y mae ysgolion yn datblygu'u harferion mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd, diwygio anghenion dysgu ychwanegol a'r adnodd newydd ar gyfer hunanwerthuso ar gyfer gwella.

6. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau hyn?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Y cwricwlwm newydd	☐	☒	☐	☐	☐
Newidiadau i'r cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol	☐	☒	☐	☐	☐
Gwella ysgolion drwy hunanwerthuso	☐	☒	☐	☐	☐

7. Pa agweddau eraill ydych chi'n meddwl y dylem ni eu hystyried yn ystod ymweliadau ymgysylltu?

Credwn fod y rhestr uchod yn fwy na digonol, ac mae'r pynciau hyn yn bendant yn flaenoriaethau. Byddai perygl ceisio gwneud gormod mewn amser mor fyr.

Wedi dweud hynny, un agwedd o'r blaenoriaethau uchod fyddai'n ddefnyddiol fyddai i edrych ar ba gymorth ychwanegol sydd ar gael i ysgolion gan gynnwys adnabod arfer dda yn lleol a thu hwnt er mwyn osgoi dyblygu gwaith mewn ysgolion unigol.

Canlyniad yr ymweliad ar gyfer yr ysgol

Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad na rhoi adborth ysgrifenedig i ysgolion ac UC'Dau ar gryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella fel rhan o'r ymweliad ymgysylltu. Yn ystod yr ymweliad, bydd trafodaethau proffesiynol arolygwyr â staff yr ysgol yn ein helpu i greu darlun o sut mae'r ysgol ac UC'Dau yn datblygu ei gwaith ac yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Bydd y trafodaethau yn helpu ysgolion i ddatblygu'r meysydd hyn ymhellach. Bydd peidio â chael proses adrodd ffurfiol yn helpu i wneud yr ymweliadau yn gyfle dysgu proffesiynol hefyd, ac yn annog deialog agored a myfyriol.

8. A ydych chi'n cytuno NA ddylem ni ddarparu adborth ysgrifenedig yn dilyn ymweliad?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☒ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Unrhyw sylwadau ychwanegol yn ymwneud ag adborth?

9. A oes gennych unrhyw adborth pellach am yr ymweliadau ymgysylltu arfaethedig?

Gyda'r ymweliadau'n debygol o bara ond un diwrnod, bydd angen bod yn gwbl glir ynghylch pwrpas yr ymweliad – a hynny er budd yr arolygwyr, a phawb yn yr ysgol yn ogystal.

Bydd angen penderfynu ai **casglu tystiolaeth** yw'r nod, neu **darparu gwybodaeth, cyngor a chanllaw**. Mae'r ddau nod yn wahanol iawn i'w gilydd, ac mi fyddai'n anodd cyfuno'r ddau mewn cyfnod mor fyr â diwrnod.

Os mai **casglu tystiolaeth** yw'r nod, bydd angen pennu'r glir at ba 'gynulleidfa' ac at ba ddiben. Byddai natur yr ymweliad yn wahanol iawn os mai casglu tystiolaeth at ddibenion yr ysgol unigol yw'r bwriad, neu os oes cynulleidfa allanol, ehangach. Os oes cynulleidfa ehangach, bydd ysgolion eisiau gwybod a fyddant yn cael eu henwi'n unigol, neu ai tystiolaeth 'generig' fyddai'n cael ei gasglu i roi darlun cyffredinol i'r Awdurdod Lleol, consortiwm rhanbarthol neu i Lywodraeth Cymru. Bydd ysgolion am wybod a oes unrhyw elfen o 'atebolrwydd' yn perthyn i'r ymweliad.

Ar y llaw arall, os yw'r pwyslais ar **ddarparu gwybodaeth, cyngor a chanllaw** i ysgolion, bydd angen bod tipyn o ymchwil wedi'i wneud ymlaen llaw gan yr

arolygwyr er mwyn deall ble mae'r ysgol unigol arni o ran ei thaith tuag at gyflwyno'r cwricwlwm. Bydd y math o wybodaeth a chyngor fydd yn ddefnyddiol yn amrywio'n fawr iawn o ysgol i ysgol.

Yn ychwanegol at hyn, mi allai ymweliadau ar ddechrau'r flwyddyn fod yn dra gwahanol eu pwyslais i ymweliadau tua diwedd y flwyddyn. A fydd yna ffordd o gadw mewn cysylltiad gydag ysgolion drwy'r flwyddyn a sicrhau bod y cyngor a'r arfer dda ddiweddaraf yn cael eu rhannu gyda phawb?

Bydd angen dealltwriaeth glir o hyn oll ar ysgolion mewn da bryd cyn yr ymweliadau.

Yn ogystal, bydd angen bod yn gwbl realistig ynghylch yr hyn mae'n bosib i'w gyflawni mewn diwrnod.

Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn bontio 2020-2021

Bydd atal arolygiadau yn rhannol yn ystod y flwyddyn bontio yn galluogi arolygwyr i gynnal ystod o weithgareddau i gynorthwyo ysgolion ac UC'Dau gyda'u gwelliant ac i gynorthwyo â diwygio addysg.

10. Pa fath o weithgareddau sy'n bwysig i ni eu cyflawni yn ystod y flwyddyn bontio yn eich barn chi?

	Pwysig iawn	Eithaf pwysig	Ddim yn bwysig
Cynnal arolygiadau thematig ar destunau addysg er mwyn cynorthwyo â diwygio addysg	☒	☐	☐
Casglu a chyhoeddi astudiaethau achos arfer dda ar y modd y mae ysgolion wedi gwella	☒	☐	☐
Cynnal neu gyfrannu at gynadleddau cenedlaethol er mwyn i ysgolion rannu arfer dda a ffyrdd i wella	☒	☐	☐
Cynnal digwyddiadau hyfforddi i gynorthwyo â diwygio'r cwricwlwm mewn partneriaeth â rhanbarthau ac awdurdodau lleol	☒	☐	☐
Cymorth drwy ymweliadau â gwasanaethau gwella rhanbarthol ac ysgolion lleol	☒	☐	☐

11. Yn ystod y flwyddyn bontio, bydd ysgolion ac UC'Dau yn paratoui i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Sut gallwn ni eu cynorthwyo a'u hannog i gymryd eu camau nesaf?

Bydd y gwaith o baratoi rhaglen ddysgu gwbl newydd, gydag addysgeg newydd, mewn arddull llawer fwy rhyngddisgyblaethol yn gofyn am fuddsoddiad amser sylweddol iawn, ar lefel unigol, ond - yr un mor bwysig - gyda chydweithwyr, nid yn unig o fewn adrannau 'pynciol', na chyfadranau hyd yn oed, nac ychwaith fesul blwyddyn ysgol, ond ar draws y cwricwlwm a'r ystodau oedran.

Pryderwn yn fawr am faint o amser digyswllt fydd gan staff dysgu – yn unigol, ac ar y cyd – i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Amser digyswllt ychwanegol fyddai'r adnodd fwyaf gwerthfawr wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Pe byddai modd i Estyn gynorthwyo i greu'r gofod angenrheidiol hwn - naill ai drwy gynghori Llywodraeth Cymru ynghylch ei bwysigrwydd, neu drwy ryddhau amser fyddai fel arfer yn cael ei ddefnyddio at ddiben arall, mi fyddai hynny'n gyfraniad gwerthfawr dros ben.

Yn ogystal, yn enwedig wrth ail-afael yn y drefn arolygu dan y Fframwaith newydd o fis Medi 2021, bydd angen sicrhau bod gofod gan ysgolion i barhau i arbrofi gyda dulliau a gweithdrefnau i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Rydym yn deall mai bwriad y Fframwaith newydd fydd rhoi llawer fwy o bwyslais ar hunanwerthuso o fewn ysgolion (ac mai rôl Estyn fydd helpu i ddilysu'r prosesau hunanwerthuso); tybiwn y bydd Fframwaith o'r fath yn gydnaws â dulliau gweithredu mwy arbrofol.

12. A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gweithgareddau y mae'n bwysig i ni eu cynnal yn ystod y flwyddyn bontio

Gweithgarwch dilynol

Yn ystod y flwyddyn bontio byddwn yn parhau i fonitro ysgolion ac UC Dau sy'n achosi pryder

13. Yn unol â'n trefniadau cyfredol, byddwn yn parhau i gynllunio ymweliadau ag ysgolion sy'n peri pryder yn ystod 2020-21. Yn ychwanegol, pa mor bwysig yw'r gweithgareddau pellach a nodir isod i'n helpu i gefnogi'r ysgolion hyn?

	Pwysig iawn	Eithaf pwysig	Ddim yn bwysig
Cynadleddau i siarad am gymorth gwella i ddatblygu cynlluniau gwella	☒	☐	☐
Cymorth i wella addysgu	☒	☐	☐
Digwyddiadau astudiaethau achos i rannu arfer	☒	☐	☐

14. A oes unrhyw awgrymiadau pellach gennych o ran y modd y gallwn wella ein cymorth i ysgolion sy'n destun pryder?

Eich diweddarau

15. Sut fydddech chi'n dymuno i ni rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn bontio?

	Ticiwch bob un sy'n berthnasol
Ein safwe	☒
E-lythyrau	☒

Cyfryngau cymdeithasol

Fideo

Blog

Digwyddiadau wyneb yn wyneb

Ticiwch bob un sy'n berthnasol



16. A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer sut y gallwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid?

Gwybodaeth ychwanegol

17. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, defnyddiwch y blwch isod i nodi enw'r sefydliad

UCAC

18. Os ydych chi'n hapus i ni gysylltu â chi eto mewn perthynas â'ch sylwadau, rhwch eich manylion cyswllt isod:

rebecca@ucac.cymru; 01970 639950

Diolch i chi am gymryd rhan yn ein ymgynghoriad. Bydd y wybodaeth a dderbynnir yn cael ei defnyddio i ddatblygu sut ydym yn cefnogi ysgolion a darparwyr eraill i reoli'r newidiadau niferus sy'n digwydd mewn addysg er mwyn sicrhau llwyddiant i'w holl ddysgwyr.

Cewch gyfle i rannu eich syniadau am ddyfodol arolygiadau craidd a'n gwaith dilynol yn hydref 2019. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad, anfonwch e-bost at: ymgyngghoriad@estyn.llyw.cymru

Anfonwch eich ymateb drwy e-bost i ymgyngghoriad@estyn.llyw.cymru neu drwy'r post i Rhadbost Estyn.